Hawliau cyplau un-rhyw

Os ydych chi mewn perthynas hoyw neu lesbiaidd, fe allwch chi gael cydnabyddiaeth gyfreithiol i'ch perthynas, trwy gofrestru **partneriaeth sifil**. Mae cofrestru partneriaeth sifil yn caniatáu i chi gael sawl hawl newydd yn ogystal â chyfrifoldebau newydd.

Mewn rhai amgylchiadau mae gan gyplau un-rhyw sy'n byw gyda'i gilydd heb gofrestru partneriaeth sifil hefyd hawliau a chyfrifoldebau. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i dai a budd-daliadau lles.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn sôn wrthych am bartneriaethau sifil ac am rhai o'r prif hawliau a chyfrifoldebau eraill sydd gennych bellach fel aelod o gwpl un-rhyw.

Cofrestru partneriaeth sifil

Fe allwch chi a'ch partner hoyw neu lesbiaidd gofrestru partneriaeth sifil cyhyd â'ch bod chi'ch dau/dwy yn 16 oed a drosodd, ac yn cwrdd â rhai amodau arbennig eraill. Fe fydd angen caniatâd rhiant neu warcheidwad os ydych yn 16 neu 17.

Fe fydd angen i chi roi rhybudd o'ch **bwriad i gofrestru** eich partneriaeth sifil, Unwaith y bydd y cyfnod rhybudd wedi dod i ben, fe allwch gofrestru eich partneriaeth sifil mewn **swyddfa gofrestru**, neu unrhyw le arall sydd wedi'i gymeradwyo i gofrestru partneriaethau sifil. Mae unrhyw le sydd wedi'i gymeradwyo i gynnal priodasau sifil yn awtomatig yn cael cymeradwyaeth i gofrestru partneriaethau sifil. Ni all lleoliadau digrefydd wrthod cynnal partneriaethau sifil os ydyn nhw'n cynnal priodasau. Byddai hyn yn wahaniaethu anghyfreithlon. Sut bynnag, gall sefydliadau crefyddol wrthod cynnal partneriaethau sifil yn eu lleoliadau hwy. Sut bynnag, gall lleoliadau ar wahân i swyddfeydd cofrestru ddewis pa un ai i gofrestru partneriaethau sifil ai peidio.

Fe fyddwch chi a'ch partner wedi cofrestru'n gyfreithiol eich partneriaeth sifil unwaith y byddwch wedi arwyddo dogfen gyfreithiol, y cyfeirir ati fel **cofrestr partneriaeth sifil**. Rhaid gwneud hyn o flaen cofrestrydd a dau dyst. Nid oes mwy o ofynion cyfreithiol ac nid oes rhaid i chi gael seremoni, er fe allwch ddewis cael un os dymunwch.

Gellir dod â phartneriaeth sifil i ben dim ond trwy gael caniatad cyfreithiol oddi wrth y llys. Fe allwch chi wneud hyn dim ond os yw'r bartneriaeth wedi parhau am o leiaf un flwyddyn. Fe fydd gennych chi a'ch partner ddyletswydd i ddarparu'n ariannol ar gyfer eich gilydd.

Budd-daliadau a chredydau treth

Os ydych chi'n byw gyda'ch partner un-rhyw ac mae un neu'r ddau ohonoch yn hawlio budd-daliadau lles neu gredydau treth, rhaid i chi **hawlio fel cwpl**. Mae hyn yn wir os ydych chi wedi cofrestru partneriaeth sifil ai peidio

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydych chi'n derbyn **Lwfans Mamolaeth**, **Budd-dal Analluogrwydd**, **Lwfans Gofalwr** neu **Lwfans Anabledd Difrifol**, efallai y gallwch gael budd-dal ychwanegol i'ch partner sifil. Mewn rhai achosion, efallai y cewch chi fudd-dal ychwanegol i'ch partner hyd yn oed os nad ydych yn bartneriaid sifil cofrestredig. Sut bynnag, mae hyn yn dibynnu os ydyw'ch partner yn gofalu am eich plentyn ai peidio.

Os ydych yn bartner sifil, efallai y bydd hawl gennych i **fudd-daliadau gweddw** neu **Bensiwn Ymddeol y Wladwriaeth** os bydd eich partner yn marw.

Os ydych chi eisoes yn derbyn budd-dal gweddw pan fyddwch chi'n cofrestru partneriaeth sifil, fe ddaw eich budd-dal i ben. Os mai menyw ydych chi sy'n derbyn Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth sy'n seiliedig ar gyfraniadau eich cyn ŵr a chwithau'n cofrestru partneriaeth sifil, fe ddaw eich pensiwn i ben.

Hawliau tai

Os ydych chi'n byw mewn **eiddo wedi'i rentu**, efallai y gallwch chi gael tenantiaeth eich partner wedi'i **drosglwyddo** i'ch enw chi. Os bydd eich partner farw, efallai y gallwch chi gymryd drosodd eu tenantiaeth, os oedd yn eu henw hwy yn unig. Os daw eich partneriaeth sifil i ben, gall llys drosglwyddo'r denantiaeth i'ch enw chi, hyd yn oed os mai'ch partner ydyw'r unig denant, neu os ydych chi'n denantiaid ar y cyd. Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau ac ar bwy fydd â chyfrifoldeb am unrhyw blant. Fe ddylech chi gael cyngor cyfreithiol os ydych chi yn y sefyllfa hon.

Os ydych chi'n byw mewn **eiddo perchen-breswyliwr** a'ch partneriaeth sifil yn dod i ben, gall llys roi hawliau hirdymor i chi i aros yn y cartref. Fe allwch chi hefyd ofyn i'r llys am **drosglwyddo perchnogaeth** yr eiddo i'ch enw chi, ni waeth pwy oedd ei berchen yn wreiddiol. Eto, bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau ac ar bwy sydd â gofal unrhyw blant. Fe ddylech chi gael cyngor cyfreithiol os ydych chi yn y sefyllfa hon.

Os oes gan eich partner sifil yr **Hawl i Brynu** eu heiddo cyngor, fe fydd gennych chi'r hawl hwn hefyd. Fe fydd gennych yr hawl hwn hefyd os ydych chi wedi bod yn byw gyda'ch partner fel cwpl am y deuddeg mis cyn hynny, hyd yn oed os nad ydych wedi cofrestru partneriaeth sifil.

Hawliau yn y gwaith

Os ydych chi'n bartner sifil, rhaid i'ch cyflogwr eich trin yn yr un ffordd ag unrhyw gwpl priod. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os bydd gan eich cyflogwr becyn budd-daliadau megis gofal iechyd preifat sydd ar gael i ŵr neu wraig un o'r gweithwyr, fe ddylai hwn fod ar gael hefyd i bartner sifil unrhyw un o'r gweithwyr.

Os ydych chi'n bartner sifil a'ch cyflogwr yn eich trin yn annheg o'i gymharu â chwpl priod mewn amgylchiadau cyffelyb, fe allwch chi wneud cais i **dribiwnlys cyflogaeth** am **wahaniaethu ar sail tueddfryd rhywiol**.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Etifeddiaeth

Pan fyddwch chi'n cofrestru partneriaeth sifil, bydd unrhyw **ewyllys** a wnaed gan un ohonoch ynghynt yn cael ei diddymu'n awtomatig. Os bydd eich partner sifil yn marw heb wneud ewyllys, fe allwch chi etifeddu rhan o'u hystâd. Bydd unrhyw arian neu eiddo ar eu hôl yn rhydd o dreth etifeddu.

Treth a phartneriaethau sifil

Fe allwch chi a'ch partner sifil **drosglwyddo asedau** i'ch gilydd, megis eiddo a chyfranddaliadau cwmni, heb orfod talu **Treth Enillion Cyfalaf**.

Os ganwyd un ohonoch cyn 6 Ebrill 1835, rydych chi'n gymwys i dderbyn lwfans treth ychwanegol.

Perthynas agosaf a phartneriaethau sifil

Os ydych chi mewn partneriaeth sifil, fel arfer derbynnir chi fel perthynas agosaf eich partner. Mae hyn yn golygu y gallwch chi'n gyfreithiol gofrestru marwolaeth eich partner, a chael yr hawl i drefnu'r angladd.

Pensiynau Preifat a galwedigaethol

Os ydych chi neu'ch partner yn perthyn i gynllun pensiwn galwedigaethol neu breifat sy'n cynnig budd-daliadau i bartneriaid priod, rhaid iddo hefyd gynnig yr un budd-daliadau i bartneriaid sifil. Os ydyw'r cynllun yn cynnig budd-daliadau i gyplau heterorywiol di-briod sy'n byw gyda'i gilydd, rhaid iddo gynnig yr un budd-daliadau i gyplau un-rhyw di-briod sy'n byw gyda'i gilydd.

Plant

Mewn rhai amgylchiadau, fe allwch chi wneud cais am **gyfrifoldeb rhiant** plentyn eich partner. Chewch chi ddim cyfrifoldeb rhiant yn awtomatig wrth gofrestru eich partneriaeth sifil.

Os ydych chi a'ch partner am fabwysiadu plentyn, fe allwch wneud hyn ar y cyd. Fe all un ohonoch fabwysiadu plentyn eich partner.

Cymorth ychwanegol

Uned Merched a Chydraddoldeb

Am fwy o wybodaeth am bartneriaethau sifil, ewch i wefan Uned Merched a Chydraddoldeb yn: www.womenandequalityunit.gov.uk

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Beth alla i ei wneud os bydd fy nghyflogwr yn fy nhrin yn annheg oherwydd fy rhywioldeb?
- Cofrestru partneriaeth sifil
- Ewyllysiau
- Dod â pherthynas i ben-cyplau di-briod sy'n byw gyda'i gilydd
- Byw gyda'ch gilydd-eich hawliau
- Budd-daliadau i bobol sy'n chwilio am waith
- Budd-daliadau a chredydau treth i bobol sy'n gweithio
- Budd-daliadau a phrofedigaeth

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 27 Hydref 2008, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr